Chwaraeon
ColegauCymru
CollegesWales
Sport

# Timau Cynrychioladol



# Timau Cynrychioladol – Personél Allweddol

## Boed y digwyddiad yn y Deyrnas Unedig neu dramor

- Arweinydd Tîm
- Rheolwyr Tîm – penderfynwch ar lefel yr oruchwyliaeth angenrheidiol (y cymarebau) a'r cydbwysedd rhywedd. Ydyn nhw'n gallu rhoi Cymorth Cyntaf? Ydyn nhw wedi cael hyfforddiant ffurfiol?
- Gallu meddygol sydd angen (Cymorth Cyntaf?, Ffisiotherapi?)
- Unigolyn/unigolion cyswllt argyfwng
- Capten/capteiniaid tîm?
- Pethau ymarferol – a oes gan rywun yn y sefydliad y sgiliau allweddol hyn? Asiant teithio arbenigol?

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

# Timau Cynrychioladol – Penderfyniadau Allweddol

## Boed y digwyddiad yn y Deyrnas Unedig neu dramor

- Pethau ymarferol – cynllunio'r daith, llety
- Y broses ddethol
- Costau – a yw'r daith wedi'i hariannu'n llawn ynteu a oes yn rhaid i'r cyfranogwyr gyfrannu hefyd? Pwy sy'n gyfrifol am y cyllid?
- Casglu data personol/ffurflenni lles (cyfranogwyr YN OGYSTAL â staff)
- Defnyddio Codau Ymddygiad (a fydd angen i chi gymeradwyo'r rhain?)
- Dyrannu, rheoli a darparu cit

# Digwyddiadau / Twrnameintiau yn y Deyrnas Unedig

- Teithio: Bysus (cofiwch gynnwys costau ychwanegol ynghyd â llety'r gyrrwr), gyrru yno eich hun (bws mini'r coleg neu gerbyd llogi), a yw hedfan yn opsiwn?
- Llety: Gwesty/gwestai, hosteli, campysau prifysgolion/colegau. Ystafelloedd – sengl YNETU rannu (a sut i ddyrannu hynny?), ystafelloedd rheolwyr timau
- Cofiwch reoli 'amser ymlacio' – strwythur, amseru. Rhowch ganllawiau clir. A ydych chi'n bwriadu cynllunio ymweliadau a gweithgareddau i lenwi'r amser?

# Digwyddiadau / Twrnameintiau yn y Deyrnas Unedig

## Teithio

- A yw teithio ar fws yn opsiwn?
- Os byddwch chi’n hedfan, ystyriwch faint o gynllunio ymlaen llaw y mae ei angen (mae angen enwau wrth archebu ar y rhan fwyaf o gwmnïau awyrennau)
- Pasbortau a fisâu (neu hepgoriadau)
- Cludo pawb i’r maes awyr YNTEU gwrdd yn y maes awyr? (a’r daith yn ôl)
- Faint o fagiau sy’n cael eu caniatáu (peidiwch ag anghofio am y cit!)
- Cynllun eistedd yr awyren

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

# Pasbortau a Fisâu

- Pasbortau – cofiwch y bydd angen enwau llawn i archebu lle ar yr awyren (fel maen nhw'n ymddangos ar y pasbortau) YN OGYSTAL â rhifau'r pasbortau (mae wastad yn well gofyn i'w gweld NEU gael ffotograff o'r dudalen wybodaeth)
- Cofiwch wirio'r dyddiadau dod i ben (mae gan wahanol wledydd reolau llym ynghylch faint o amser yn weddill sydd ei angen i gael mynd i mewn i'r wlad)
- Mae'n annhebygol y bydd fisâu yn ofynnol ar gyfer taith chwaraeon/ddiwylliannol
- Fodd bynnag:
  - Mae angen cwblhau hepgoriad fisa ar gyfer yr Unol Daleithiau (ESTA, ar-lein)
  - Bydd angen hyn ar gyfer gwledydd Shengen o ddiwedd 2023 (ETIAS, ar-lein). Bydd ffioedd i'w talu!

# Rhagor o Bethau i'w Hystyried 1

## Yswiriant

- Pa lefel o yswiriant fydd ei hangen arnoch chi?
- Polisi grŵp yn cynnwys anafiadau personol, colli eitemau, lladradau ac ati
- Yswiriant meddygol cynhwysfawr – i gynnwys costau dychwelyd adref os bydd anaf difrifol
- Sut fyddwch chi'n talu'r costau hyn?

# Rhagor o Bethau i'w Hystyried 2

## Iechyd a Diogelwch / Asesiad Risg

- Gofynnwch i drefnydd y digwyddiad / y sawl sy'n eich croesawu i roi cynllun y digwyddiad i chi a'r cynllun asesu risg / cynllun meddygol
- Gofynnwch i'r sawl sy'n darparu'r llety am yr asesiad risg a'r cynllun gadael mewn argyfwng
- Gofynnwch am gyngor ynghylch asesu risg cynlluniau teithio a threfniadau eraill. Edrychwch ar senarios posibl, a gwneud trefniadau sylfaenol (fydd dim modd i chi feddwl am yr holl bethau posibl!)

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

# Rhagor o Bethau i’w Hystyried 3

## Diogelu / Amddiffyn Plant

- Edrychwch ar ddemograffeg oedran eich grŵp
- Penderfynwch ar y Polisïau/Gweithdrefnau Diogelu a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y daith (a rhowch wybod i bobl beth yw’r rhain)
- A fydd angen hyfforddiant ychwanegol ar reolwyr tîm/staff
- Penderfynwch ar y broses i’w dilyn os cewch chi ddamwain (a phwy fydd yn arwain)
- Pa dempled fyddwch chi’n ei ddefnyddio mewn digwyddiad o’r fath i roi gwybod am y digwyddiad?
- Gyda phwy fyddwch chi’n trafod/i bwy fyddwch chi’n rhoi gwybod am ddigwyddiad o’r fath?

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

Rob Baynham,
**Rheolwr Prosiect Lles Actif a Chwaraeon**

Rob.Baynham@ColegauCymru.ac.uk

Chwaraeon.Colegau.Cymru